

LLEISIAU O LAWR Y FFATRI / VOICES FROM THE FACTORY FLOOR

Ffatri Laeth Llangefni (c 1957-67)

Cyfwelai: VN032 Rosie Jones

Dyddiad: 14: 07: 2014

Cyfwelai: Kate Sullivan ar ran Archif Menywod Cymru

There is an English summary of the interview following the Welsh text

Cadarnhaodd Rosie ei henw, ei chyfeiriad a'i dyddiad geni, sef 29/10/1940

Unig blentyn, ganwyd ar Ynys Môn, ar fferm ei nain. Roedd ei thad ar y ffyrdd a'i mam yn gweini. Aeth i'r ysgol yn Llangefni, i'r Ysgol Ramadeg. Gadawodd yr ysgol yn 16 oed, ar ôl lefel O. Roedd hi'n meddwl aros ymlaen yn yr ysgol ond daeth swydd i fyny yn y ffatri llaeth ac roedd hi eisiau gwneud honno, a chafodd hi'r swydd ar yr amod y byddai hi'n gwneud yr arholiadau roedd hi wedi paratoi ar eu cyfer yn yr ysgol, a dyna beth wnaeth hi.

Swydd barhaol ar ôl tri mis oedd honno, ac aeth hi yn ôl yn yr haf i drïo'r arholiadau, gydag amser i ffwrdd o'r ffatri. Roedd hi'n gwneud teipio mewn coleg hefyd o dan yr amod hwn (?)

Cafodd hi o hyd i'r swydd ar ôl clywed yn yr ysgol bod swyddi yn mynd yn y ffatri llaeth, mae'n credu mai ar ôl y gwasanaeth bore oedd hyn. Dydy hi ddim yn cofio beth wnaeth hi i ofyn am y swydd ond mae'n cofio'r cyfweiliad efo dyn roedd hi'n ei nabod beth bynnag. Doedd hi ddim yn byw ar y fferm yr adeg honno ond roedd y teulu yn cadw ychydig o ddefaid. Byw yng Ngaerwen yr oedd hi ac roedd y ffatri yn Llangefni, felly roedd hi'n gorfod dal y bws.

Roedd hi wedi mynd am swydd arall, mewn banc, swydd roedd hi wedi clywed amdani yn y gwasanaeth bore hefyd ond roedd yn well ganddi wneud swydd y ffatri achos roedd hi eisiau gwneud gwaith yn ymwneud ag amaethyddiaeth. Y *Milk Marketing Board* oedd piau'r ffatri. Ond ar ôl clywed ei bod hi wedi cael y swydd, doedd hi ddim yn siŵr wedyn, yn teimlo'n nerfus i fynd i mewn i griw o weithwyr ar ôl bod ar ei phen ei hun. Ond roedd hi'n nabod Mair (VN033) a oedd yn gweithio yno'n barod. Yn fuan ar ôl dechrau, cafodd hi *appendicitis* ond wnaethon nhw gadw ei swydd iddi ac anfonodd y staff focs o sioledau '*Black Magic*' iddi.

Mae'n cofio ei diwrnod cyntaf, yn gwisgo *overalls* a *wellingtons*, yr oedd hi wedi'u prynu yn Llangefni. Chwaraeodd rhyw ddyn dric arni ychydig o ddyddiau ar ôl iddi gychwyn yno – ei rhoi hi i eistedd ar silff a phaentio ei *wellingtons* gydag wyneb ?? Hwyl oedd hyn, meddai, ac

roedd pawb yn ffrindiau yno ac roedd yn lle difyr iawn. Roedd tua hanner cant yno, rhwng y merched, y dynion a'r gyrrwyr a oedd yn mynd â'r poteli o gwmpas, gan gynnwys i'r ysgolion.

Gwaith Rosie oedd profi'r llaeth a oedd yn dod i mewn o'r ffermydd mewn caniau - cymryd sampl o'r can, profi fo yn y lab, ac roedd tal y ffermwr yn dibynnu ar safon y llaeth. Y broses brofi oedd fod pob merch yn codi nifer o samplau, cynhesu nhw i 104F/40C, cwlio nhw i lawr i 68F/20C, ac wedyn eu sugno nhw i mewn i *pipettes* ac wedyn eu rhoi nhw mewn *butyrometers*, rhoi *acid* ar eu pennau, ac wedyn roedd yn mynd i *centrifuge* wedyn. Roedd popeth yn *sterile*. Wedyn roedd rhesi o'r samplau yn sefyll mewn dŵr poeth am ychydig ac roedd y saim yn dod i'r wyneb ac roedd y merched yn 'darllen' y canlyniadau ac yn gweithio allan y '*solids to fat*' ratio.

Roedd Rosie o dan hyfforddiant yn y cychwyn, yn dysgu'r broses uchod yn y swydd, yn ystod ei thri mis o brawf. Gweithio yn y lab roedd hi, yr unig lab oedd yno, chwech o ferched i gyd, ond ar ôl ei hamser hi, roedd dynion yn gweithio yn y lab hefyd. **Roedd 'na rai merched hŷn yno, wedi bod yno cyn iddi hi ddechrau, ac roedd y rhai ifancach yn cael llawer o jobsys bach doedd y gweithwyr hyn ddim eisiau eu gwneud.** Roedd y merched hyn yn dda iawn, meddai, a phawb yn ffrindiau mawr.

15.30 Ar wahân i'r lab, roedd swyddfa yno, a '*mess room*' lle roedd y gweithwyr yn mynd i gael paned a brechdanau. Doedd dim cantin yno pan ddechreuodd Rosie, ond daeth un wedyn, meddai. Yn y cyfnod cynnar, roedd y rheolwr hefyd yn dod i'r lab i fwyta ei ginio, ac roedd menyw a oedd yn glanhau yno hefyd yn cynhesu bwyd i'r rheolwr a'r gweithwyr. **Ar ddydd Sadwrn neu ddydd Sul, pan nad oedd y rheolwr yno, roedd y gweithwyr yn cael 'fry up' yn defnyddio'r peiriannau lab i gynhesu'r bwyd mewn sosban. Doedden nhw ddim i fod i fwyta yn y lab, ond yn y 'mess.'** Roedd un rheolwr a chwpl o *foremen* yno. Yn nes ymlaen, roedd caws a phowdwr llaeth yn cael eu gwneud yno, a llawer o dancys yn mynd a'r cynnyrch i ffwrdd.

Pan oedd Rosie yno, cymerodd cwmni *Cadbury's* y ffatri drosodd ac roedden nhw'n gwneud siocled. Crynwyr oedd y *Cadbury Brothers*, ac amser Nadolig, doedden nhw ddim yn mynd i hotel a doedd dim diodydd, mynd ar drên o Langefni i Llandudno i ryw gaffi, ac amser Nadolig, roedden nhw'n cael prynu bocsys o siocled ar '*offer*' a siocledi 'seconds' am bris da, neu fagiâu o fisgedi. Roedd y cwmni yn trefnu tripiâu i *Cadbury's* yn Birmingham hefyd. Pobl deg iawn oedd y teulu, meddai. Dydy Rosie ddim yn cofio'n iawn pa bryd yr oedd *Cadbury's* piau'r lle. Pryd o fwyd mewn caffi a sioe wedyn roedden nhw'n ei gael adeg y Nadolig, yn Llandudno, a oedd y costio tipyn i'r teulu *Cadbury's* ond roedden nhw'n bobl annwyl.

22.00 **Doedd dim overtime yn y ffatri o dan *Cadbury's* ond *time in lieu*, sef amser yn lle arian.** Dwy bunt yr wythnos oedd cyflog Rosie. Daeth y Bwrdd Marchnata Llaeth cymerodd y ffatri'n ôl wedyn, a bryd hynny roedd *overtime* i gael, sef arian. Roedd yn hollol wahanol yno o dan y ddau, meddai; pan oedd *Cadbury's* yno, roedd popeth yn lliw siocled, gan gynnwys y tanceri. Ond roedd y gwaith yr un peth, ond roedd 'na fwy o fynd allan efo *Cadbury's*, i lefydd fel Lerpwl.

Doedd y gweithwyr ddim yn cael llaeth am ddim ond roedd pobl yn gallu cael llaeth yn syth o'r loris a oedd yn ei gasglu fo o'r ffermydd a thalu amdano ar ddiwrnod cyflog.

Roedd Rosie yn gweithio o 8.30, clocio i mewn, clocio allan i ginio hefyd, ac yn gorffen am bump. Roedd rhai o'r merched yn gwau yn ystod amser cinio, achos roedd awr ganddyn nhw. **Roedden nhw'n gweithio pum diwrnod yr wythnos, ond roedd y ffatri ar agor saith diwrnod, achos y godro gwartheg, felly os oedd yn rhaid iddi weithio dydd Sadwrn neu ddydd Sul, roedd hi'n cael dydd llun neu ddydd Mawrth i ffwrdd.** Byddai'r rheolwr yn dod â'r *order* iddynt ac yn deud 'wythnos yma, ti'n off dydd Llun, wythnos nesaf, dydd Mawrth,' ayyb.

Doedd y lab ddim yn lle oer i weithio achos roedd 'na bopty yno i gynhesu'r samplau. Roedd rheilffordd yn agos. Ar draws y rheilffordd roedd y ganolfan IA ac roedd dynion yno i fynd rownd y ffermydd i roi *artificial insemination* i'r gwartheg yn eu ceir '35s.'

Yn y ffatri, roedd sŵn mawr, o'r caniau yn dod oddi ar y loris, a chael eu rhoio mewn i'r ffatri, a mynd trwy'r peiriannau. Ac roedd arogl y llaeth yn dod o'r caniau yn ofnadwy. Caniau mawr oedd y rhain ac roedd yn rhaid gwneud y gwaith yn gyflym. Roedd pob darn o offer yn *stainless steel*, popeth yn cael ei sterleisio yn y popty. Roedd *overalls* y merched yn cael eu llosgi gan smotiau o *sulphuric acid*, ac weithiau croen y gweithwyr os nad oeddynt yn ofalus. Roedd hyn yn gyffredin a doedd neb yn cwyno, jyst rhoi eu dwylo o dan ddŵr. Roedden nhw i fod i wisgo gogls pan oedden nhw'n gweithio efo'r *acid* yma ond byddent yn anghofio yn aml. Roedd y cwmni yn dda yn dilyn rheolau iechyd a diogelwch, 'rhaid iddynt fod' meddai Rosie.

Roedd yn rhaid i'r merched a oedd yn profi'r llaeth gael *colour blindness test* gan y meddyg, achos roedden nhw'n defnyddio *litmus paper* i wneud y profi hyn, ac roedd y papur yma yn newid lliw fel rhan o'r prawf. Roedd gwahanol *shades of blue* er mwyn testio'r llaeth, felly roedd yn rhaid i'r merched gael llygaid da. Os oedd y llaeth yn ddrwg, roedd yn mynd yn ôl i'r ffermwr y diwrnod wedyn efo label coch arno, a byddai'r ffermwr yn colli ei dal. Byddai'r llaeth da yn mynd i'r tancer i lefydd eraill a rhywfaint yn aros i gael ei roi mewn poteli a oedd yn mynd rownd Sir Fôn i gyd. Roedd dynion yn rhoi'r llaeth yn y poteli, gyda pheiriant - poteli mawr a hefyd poteli bach i'r ysgolion. Roedd rhai o'r loris yn mynd i ysgolion yn unig, achos roedd cymaint ohonynt.

35.00 Felly, gwaith y merched oedd yn y lab; roedd y gwaith arall o gasglu'r llaeth o'r ffermydd, dod â'r caniau oddi ar y loris i mewn i'r ffatri, llenwi'r poteli, a mynd â nhw i ffwrdd i gyd yn waith dynion. **Roedd y dynion yn cael mwy o gyflog na'r merched, yn ôl Rosie, a doedd y merched ddim yn meddwl dim byd am hyn ar y pryd.**

Efo'i chyflog, roedd Rosie yn cadw rhywfaint. Roedd hi'n byw gartref. Roedd hi'n after mynd i Fangor ar ddydd Sadwrn ar y bws ac "os oedd gynnoch chi chweugian, roeddech chi'n dda iawn." Byddai'r chweugian yma yn talu'r bws, bag o sglodion a mynd i'r pictiwr. **Roedd hi'n talu bws trwy'r wythnos i fynd i'r ffatri a doedd hi ddim yn cofio rhoi arian i'w mam.** Hi oedd yr unig blentyn. Aeth ei chyflog i fyny yn ystod yr amser y bu hi yno, ond dydy hi ddim yn cofio faint.

Roedd undeb yno, ond doedd y merched ddim yn aelodau, dim ond y dynion. Mae'n cofio rywdro fod streic yno, ac aeth y dynion allan, o achos eu cyflogau, mae'n debyg. Mae'n debyg fod y dynion yn ddig fod y merched yn cario ymlaen i weithio, achos doedd dim undeb ganddynt, yn ystod y streic yma. Roedd ei gŵr, cyn iddynt briodi ond yn canlyn, yn y streic (?)

Priododd Rosie yn 1972, ar ôl cwrdd â fo yn y gwaith, ond roedd hi wedi symud o'r hufenfa erbyn hynny ac yn gweithio i'r cyngor. Roedd hi yn y ffatri laeth am ddeng mlynedd rhwng 1957-67. Cafodd hi gyfweliad efo'r cyngor am swydd oedd yn yr adran '*licensing*' ac roedd yr adeilad hwn yn agos iawn i'r ffatri laeth. Gwnaeth un o'r bwrdd cyfweld ofyn pamroedd hi'n trïo am y swydd pan fyddai hi mor agos at ei chyn-waith. Ateb Rosie oedd, nad oedd hi wedi meddwl am hynny, ond cafodd hi'r swydd.

Gadawodd hi'r ffatri laeth achos roedd hi eisiau ennill mwy o gyflog ac roedd y cyngor yn talu yn dda a hefyd yn cynnig cyfle gwell i symud ymlaen o ran gyrfa. Roedd hi'n mwynhau'r gwaith yn yr hufenfa ond bod y cyflog ddim yn codi llawer. Hefyd roedd hi wedi dysgu sut i deipio ac yn meddwl ei bod hi'n 'wastio fy hun' yno.

Yn y lab, roedd hi'n deud ei bod hi'n gynnes y tu mewn ond roedd yn rhaid i'r merched fynd allan weithiau i brofi'r llaeth ar y '*deck*' a hynny mewn pob math o dywydd, felly roedd yn rhaid iddynt

roi'u cotiau amdanynt. Roedd y merched yn rholio'r caniau weithiau ac roedden nhw'n drwm iawn. Mae'n cofio un adeg, roedd hi'n rholio can llaeth llawn dŵr mewn cystadleuaeth Ffermwyr Ifanc yn Fali.

Ar un adeg, bu'n rhaid iddi fynd i Gaernarfon i brofi llaeth mewn hufenfa yno a chododd tancer hi am chwech o'r gloch y bore i fynd â hi yno.

Profi oedd hi drwy'r amser y bu hi yn yr hufenfa, y tro cyntaf. **Ar ôl gorffen yn y cyngor i gael plant, aeth hi yn ôl i'r lab, i'r cantîn ac i'r swyddfa i weithio. Ffoniodd yr hufenfa hi i ddeud bod angen help arnyn nhw ac roedd hi'n mynd i mewn pan oedd galw am gyfnod.** Doedd hi ddim eisiau gwneud hyn yn y dechrau ond roedd hi'n mwynhau gwneud y swyddi gwahanol ac bu wrthi am flynyddoedd, ond heb fod yn barhaol, achos roedd plant ganddi a'i rhieni yn mynd yn hen, a hefyd anifeiliaid. Ond roedd ei gŵr yn dal yno, ac roedd o yno am 42 o flynyddoedd, yn gyrru'r tanceri.

Wrth edrych yn ôl dros y deng mlynedd o waith parhaol, mae'n cofio'r cyfeillgarwch, pawb yn glên iawn ar y cyfan. **Mae'n cofio weithiau byddai ffermwyr oedd wedi cael llaeth drwg yn ôl yn dod i mewn i gwyno, dod i'r lab weithiau i ddadlau efo'r merched a oedd wedi testio'r llaeth. Roedd rhywun unwaith, un o'r gweithwyr, wedi trio dwyn powdwr llaeth ond cafodd o/hi ei stopio.**

O ran y damweiniau efo'r acid, doedden nhw ddim yn eu reportio nhw. Roedden nhw i fod i wisgo menig rwber ac roedd y llosgi yn digwydd pan oedden nhw ddim wedi rhoi'r menig amdanynt. Felly, doedden nhw ddim yn eu reportio nhw, achos y diofalwch yma. Sefyll oedd y merched i brofi ac eistedd i lawr i weithio allan y canlyniadau, e.e. faint o *fats* a *faint* o solids oedd yn y llaeth. Roedd 'na swyddfa un ochr y lab i wneud hyn ac roedd yr adroddiadau hyn i mynd i'r ffermwyr. Roedd merched yn gorfod pwysu'r llaeth hefyd ac os oedd yn fyr, roedd yn rhaid ysgrifennu at y ffermwr, ac byddai o ar ei golled ar ddiwedd y mis pan gâi'r ffermwyr eu tal.

Hyd: 55 munud

English summary

Llangefni Milk Factory (c 1957-67)

Interviewee: VN032 Rosie Jones

Date: 14: 07: 2014

Interviewer: Kate Sullivan on behalf of Women's Archive Wales

Rosie was born on 29th October, 1940 at her grandmother's farm on Anglesey. She was an only child. Her father worked on the roads and her mother was in domestic service. She went to the grammar school in Llangefni but left when she was sixteen after doing her 'O' levels. She had intended staying on in school but a job opportunity came up at the milk factory. She got the job but

it was on the condition that she would complete the examinations she had prepared for.

She had been doing the job for three months when she had time off to take her examinations. She studied typing in college under a similar arrangement.

She had heard about the job in the milk factory one day in assembly in school. She remembers that the interview was with a man she knew. She wasn't living on the farm at that time but the family kept a few sheep. She was living in Gaerwen and the factory was in Llangefni so she had to travel to work by bus.

She had also heard that there was a job going in the bank but preferred to go and work in the factory because she wanted to do something connected to agriculture. The factory was owned by the Milk Marketing Board. After hearing that she'd got the job she felt nervous about going to work among a crowd of workers. She knew Mair (VN033) who was already working there. She suffered an appendicitis shortly after starting there but they kept the post open for her and the staff sent her a box of Black Magic chocolates.

She remembers her first day, wearing the new overalls and wellingtons that she'd bought in Llangefni. A man played a trick on her a few days after she started by putting her to sit on a shelf and painting faces on her wellingtons, which she viewed as just a bit of fun. There were about fifty people working there including the women, men and drivers that transported the bottles of milk.

Rosie's work was to test the samples of milk that came in from the farms. The farmers' fee depended on the standard of the milk. The process of testing involved taking a number of samples, heating them to 104F/40C, cooling them to 68F/20C, sucking them up into pipettes, putting them into butyrometers, putting acid on them and then putting them in a *centrifuge*. Everything was sterile. Rows of samples would be standing in hot water for a while and the fat would come to the surface. The women would read the results and work out the ratio of solids to fat.

Rosie was trained in the process of testing during her three month probationary period. There were six girls working in the lab altogether, although later on men started working there. The younger girls did the jobs in the lab that the older women didn't want to do, and everybody got on well together.

15.30 There was also an office and a mess room where the workers went for a cuppa and a sandwich. There was no canteen when Rosie first started there. In the early days the manager would come to the lab to eat his lunch, and the cleaner would come in and heat food for him and the workers. **On Saturdays and Sundays when the manager was not there the workers would have a fry up in the lab with food heated in a saucepan. They weren't permitted to eat there and were supposed to eat in the mess.** There was one manager and a few foremen. Later on they produced cheese and powdered milk there, with many tankers transporting the produce away.

Cadbury's took the factory over during the time that Rosie was there to make chocolate. The Cadbury's brothers were Quakers so at Christmas time they didn't have a party in a hotel. They would go on the train from Llangefni to Llandudno to some cafe, and then go and see a show paid for by the Cadbury family. The workers were allowed to buy a box of chocolates on offer, or buy seconds for a good price. The company organised trips to Cadbury's in Birmingham and the family treated the farmers fairly.

22.00 **They didn't get paid overtime in the factory under Cadbury's but got time in lieu.**

Rosie's wage was two pounds a week. The factory reverted back to the Milk Marketing Board and overtime payments were made during this time. Working there was completely different under the two. When Cadbury ran the factory everything was chocolate coloured including the tankers.

The workers didn't get free milk but could get milk straight from the lorries that had collected it and would then pay for it on pay day.

Rosie began work at eight thirty and finish at five o'clock. They would clock in and clock out including clocking out for lunch. Some women knitted during their lunch breaks because they had an hour's break. **She worked five days a week but the factory was open seven days of the week, as the cows would be milked every day. If she had to work Saturday or Sunday she would get Monday and Tuesday off. The managers would bring them the order and tell them which days they were working.**

The factory was very noisy when the cans were rolled in from the lorry and went through the machines. The smell of the milk in the cans was awful. The cans were large and the work had to be dealt with quickly. Each item of equipment was stainless steel, and everything was sterilised in the oven. The women's overalls, and sometimes their skin, would get burnt by spots of sulphuric acid. This was quite common but nobody complained. They just put their hands in water. They were supposed to wear goggles due to the acid but would often forget. The company were good at following health and safety rules.

The women testing the milk had to have a colour blindness test with the doctor because they used litmus paper as part of the testing process. If the milk was bad it went back to the farmer the following day with a red label on it and he would lose his payment. Some of the good milk would go by tanker to other places but some of it was bottled there and sent around Anglesey. The milk was bottled into large bottles, and small bottles for the schools by the men using a machine.

35.00 The work of the women was in the lab, and the men collected the milk from the farmers, took the cans off the lorries, brought them into the factory, filled the bottles, and took them away. **The men earned more than the women but the women didn't think anything of it at the time.**

Rosie was living at home. She used to go to Bangor on a Saturday on the bus. "If you had a ten shilling note you had plenty of money." This ten shillings would pay for the bus, a bag of chips and a ticket for the cinema. **She would pay for the bus to go to work and she doesn't remember giving her mother any money for her keep.** She was an only child. Her wage increased during the time she was there although she doesn't remember by how much.

There was a union there and the men were members but the women weren't. The men went on strike there once over wages. The men were angry that the women carried on working.

Rosie met her husband in the factory. They got married in 1972 but she had left the creamery by then and was working for the council. She was in the milk factory for ten years between 1957 and 1967. She was interviewed by the council for a job in the licensing department. The building was very near the milk factory.

She left the milk factory because the job in the council offered higher pay and more opportunities for career advancement. She enjoyed the work in the creamery but the wages were low. She had learnt to type and thought her skills were being wasted there.

It was warm in the lab, but the women had to go outside to test the milk on the deck in all kinds of weather and would have to wear their coats. They would roll the cans sometimes and they were

very heavy. She once rolled a can full of water in the Young Farmers competition in Valley. On one occasion she had to go to Caernarfon to test milk and was given a lift in one of the tankers at six o'clock in the morning.

Rosie's job was testing during her first stint in the factory. **She left the council to have children and went back to work at the creamery on a casual basis – working in the lab, canteen and office whenever she received a call asking for help.** She wasn't there on a permanent basis but did this for years in between looking after the children, her parents and the animals. Her husband was there for forty two years driving tankers.

Looking back over the ten years of work she remembers good friendships. **When farmers had milk returned they occasionally came in to complain and dispute it with the women who tested the milk.**

They didn't report the accidents with the acid because they were supposed to wear rubber gloves and the accidents would happen when they had failed to do. The women stood on their feet to test the milk and sat down to work out the results. There was an office to one side of the lab for this purpose and the reports went to the farmers. The women had to weigh the milk too, and if it was under they had to write to the farmer and his payment at the end of the month would be docked.

Duration: 55 minutes